## Beth fydd yn digwydd os bydd yn rhaid i mi ymddeol oherwydd salwch?

Os oes gennych o leiaf gyfanswm o 2 flynedd o aelodaeth neu wedi trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), a bod eich Cyflogwr yn terfynu eich cyflogaeth ar sail salwch, efallai y bydd gennych yr hawl i gael taliad o'ch buddion ymddeol yn syth (heb eu gostwng), ar yr amod bod Ymarferwr Meddygol Cofrestredig Annibynnol (YMCA) cymeradwy, sydd wedi ymgymhwyso mewn meddygaeth iechyd galwedigaethol yn ardystio bod o ganlyniad i salwch neu wendid meddyliol neu gorfforol:

- Rydych yn barhaol analluog[1] i ymgymryd yn effeithiol a dyletswyddau'r gyflogaeth yr ydych yn ymwneud â; ac
- **NID** ydych yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig yn syth (gwaith cyflogedig am **DDIM** llai na 30 awr yr wythnos am **DDIM** llai na 12 mis).

Bydd unrhyw fuddion sy'n dod yn daladwy ar sail salwch yn cael eu dyfarnu o dan drefniant haenog. Yn dibynnu ar ba haen sy'n cael ei ddyfarnu, gall buddion cael eu gwella er mwyn ystyried taliad cynnar.

## Sut y bydd fy achos yn cael ei asesu?

Bydd eich achos yn cael ei gyfeirio at y YMCA, a fydd yn asesu eich gallu ar sail y dystiolaeth feddygol a gyflwynwyd gan eich Cyflogwr, eich Meddyg Teulu ac unrhyw Feddyg Ymgynghorol neu Arbenigwyr y gallech fod wedi ei weld mewn cysylltiad â'ch analluogrwydd, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Sylwer efallai y bydd gofyn i chi gael **Archwiliad Meddygol** gan y YMCA i asesu eich cyflwr.

Ar ol eich asesu, bydd adroddiad / tystysgrif yn cael ei anfon at eich Cyflogwr, a fydd yn nodi graddfa'r analluogrwydd; a oes llai tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig ac oes un, pa haen o fuddion i'w ddyfarnu.

## Dyfarniad 'Haen 1'

Os yw'r YMCA yn tystio eich bod yn anhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA), bydd yr ychwanegiad a ddyfernir yn y swm o bensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio y byddech wedi adeiladu o'r diwrnod yn dilyn eich terfyniad hyd at eich OPA.

Mae'r ychwanegiad hyn yn seiliedig ar eich 'Cyflog Pensiwn Tybiedig' (CPT), sef cyfartaledd o'r tâl pensiynadwy y byddech wedi'i gael o fewn y **3 mis cyflawn** (neu 12 wythnos os telir yn wythnosol) cyn eich dyddiad gadael.

[1] Mae parhaol analluog yn golygu i'ch Oedran Pensiwn Arferol (OPA), sy'n gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (OPW) ac felly gall newid yn y dyfodol.

## Dyfarniad Haen 2

Os yw'r YMCA yn tystio eich bod yn anhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn **3 blynedd** o adael eich cyflogaeth, ond mae'n debygol y byddwch yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eich OPA, bydd yr ychwanegiad a ddyfernir yn 25% o hynny a ddyfarnwyd dan Haen 1 h.y. 25% o swm y pensiwn Cyfartaledd Gyrfa y byddech wedi adeiladu o'r diwrnod yn dilyn eich terfyniad hyd at eich OPA.

## Dyfarniad Haen 3

Os yw'r YMCA yn tystio eich bod yn anhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn **3 blynedd** o adael eich cyflogaeth neu cyn eich OPA os yn gynt, bydd y buddion rydych wedi adeiladu hyd at eich dyddiad terfynu yn daladwy **HEB** unrhyw ychwanegiad.

Yn wahanol i Haen 1 a Haen 2, NID yw'r dyfarniad yma o fuddion yn daladwy am eich oes, gan y bydd y taliad o'ch pensiwn blynyddol yn dod i ben ar unwaith os ydych yn cael gwaith cyflogedig neu ar ôl **uchafswm o dair blynedd.**

Bydd eich achos yn cael ei adolygu gan y YMCA ar ol bod mewn taliad am **18 mis** er mwyn asesu os yw eich cyflwr wedi gwella neu waethygu. Os yw eich salwch wedi gwaethygu, efallai y byddwch yn gymwys i gynyddiad i Haen 2. Os yw eich cyflwr wedi gwella, bydd eich taliad eich pensiwn yn dod i ben ar unwaith.

Noder mai eich cyfrifoldeb chi yw hysbysu eich Cyflogwyr os ydych yn cael unrhyw fath o gyflogaeth tra'n derbyn eich pensiwn Haen 3. Bydd eich Cyflogwr yn asesu'r gwaith hwn yn unol â meini prawf gwaith cyflogedig. **Noder y bydd unrhyw ordaliad o bensiwn yn cael ei adennill gan y Gronfa Bensiwn.**

## Dalier Sylw

Os ydych wedi derbyn dyfarniad Haen 1 neu Haen 2 o'r blaen gan CPLlL, neu wedi derbyn pensiwn afiechyd O CPLlL cyn 1 Ebrill 2008, gellir capio unrhyw ychwanegiad neu efallai na fydd yn berthnasol hyd yn oed os ydych am ymddeol eto am rhesymau afiechyd.

## Hawl i Apelio

Os ydych yn anfodlon â'r dyfarniad o fuddion salwch, mae gennych yr hawl i apelio o dan y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM). Dylid apelio yn ysgrifenedig o fewn **6 mis** o ddyddiad penderfyniad eich Cyflogwr a'i anfon i'r person a nodir gan eich Cyflogwr. Cysylltwch â'ch **Cyflogwr** am ragor o wybodaeth ynghylch GDAM.

## Gwybodaeth Bellach

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: **01443 680 611**

E-bost: **pensions@rctcbc.gov.uk**

cplll 2014

CRONFEYDD PENSIWN CYMRU

# ffeithlen



# Salwch